OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1392 (Cy.106)

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud - -	*24 Mai 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau yn y maes milfeddygol i ddiogelu iechyd y cyhoedd, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

Diwygio Rheoliadau TSE (Cymru) 2002

2.—(1) Diwygir Rheoliadau TSE (Cymru) 2002(**4**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 3 (dehongli), yn lle'r diffiniad o "the Community Transitional Measures" rhodder y diffiniad canlynol —

""the Community Transitional Measures" means —

(a) Commission Regulation (EC) No. 1248/2001 of 22 June 2001 amending Annexes III, X and XI to Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards epidemio-surveillance and testing of transmissible spongiform encephalopathies(**5**);

(b) Commission Regulation (EC) No. 1326/2001 of 29 June 2001 laying down transitional measures to permit the changeover to Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council for the prevention, control and eradication of certain

(**1**) O.S. 2003/1246.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).
(**4**) O.S. 2002/1416 (Cy.142) a ddiwygiwyd gan O.S.2003/2756 (Cy. 267) ac O.S. 2004/2735 (Cy.242).
(**5**) OJ Rhif L173, 27.6.2001, t.12.